**GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIO RHIF 12) 2024**

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn eich atal rhag:

i. Gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1.
ii. Eich atal rhag aros a llwytho a dadlwytho rhwng 08:00 a 16:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ar y darnau o'r ffordd a nodir yn Atodlen 2.
iii. Gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg a'ch atal rhag llwytho a dadlwytho rhwng 08:00 a 16:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 3.

Caniateir eithriadau ar gyfer y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 am y rhesymau canlynol:-

a. esgyn a gadael cerbyd;
b. llwytho a dadlwytho nwyddau;
c. gwasanaethau hanfodol ac angladdau;
ch. am gyfnod o hyd at dair awr, cerbydau sy'n arddangos "Bathodyn i Bobl Anabl" ac sy'n cael eu defnyddio i gludo pobl anabl.

Caniateir eithriadau ar gyfer y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 am y rhesymau canlynol:-

a. esgyn a gadael cerbyd;
b. gwasanaethau hanfodol ac angladdau;

Caniateir eithriadau ar gyfer y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 3 am y rhesymau canlynol:-

a. esgyn a gadael cerbyd;
b. llwytho a dadlwytho nwyddau rhwng 16:31 a 07:59 (dros nos) o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar unrhyw adeg ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.
c. gwasanaethau hanfodol ac angladdau;
ch. am gyfnod o hyd at dair awr, cerbydau sy'n arddangos "Bathodyn i Bobl Anabl" ac sy'n cael eu defnyddio i gludo pobl anabl rhwng 16:31 a 07.59 (dros nos) o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar unrhyw adeg ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Mae manylion y cynnig a'r cynllun sy'n dangos lleoliad a maint y cyfyngiadau arfaethedig ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/gorchmyniontraffig neu drwy sganio'r cod QR isod. Yn ogystal, gallwch gael copïau drwy anfon cais ar e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk neu drwy anfon cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon gwrthwynebiadau a sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r gorchymyn yn ysgrifenedig ar neu cyn 27 Mehefin 2024 neu dros e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk. Yn achos gwrthwynebiad, rhaid cynnwys datganiad yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gellir tynnu'r Hysbysiad hwn ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o'ch dewis, boed hynny'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Atodlen 1

Baron's Court Road

Ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Earls Court Place am 10 metr i'r de ac o'r gyffordd â Earls Court Place am 7 metr i'r gogledd.

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Hampton Court Road am 9 metr i'r de ac o'r gyffordd â Hampton Court Road am 10 metr i'r gogledd.

Rhodfa Colchester

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Hammond Way am 8 metr i'r dwyrain ac o'r gyffordd â Hammond Way am 5 metr i'r gorllewin.

Earls Court Place

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Baron's Court Road am 9 metr i'r gorllewin ac ar ochr y de o'r gyffordd â Baron's Court Road am 10 metr i'r gorllewin.

Hammond Way

Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 12 metr i'r gogledd ac ar ochr y gorllewin o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 14 metr i'r gogledd.

Hampton Court Road

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Baron's Court Road am 10 metr i'r dwyrain ac ar ochr y de o'r gyffordd â Baron's Court Road am 9 metr i'r dwyrain.

Howardian Close

Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 9 metr i'r gogledd ac ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 15 metr i'r gogledd-ddwyrain.

Scholars Drive

Ar ochr y dwyrain a'r gorllewin o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 9 metr i'r gogledd.

Atodlen 2

Foster Drive

Ar ochr y de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Hammond Way am 8 metr i'r gogledd-orllewin.

Hammond Way

Ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 12 i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 60 metr i'r gogledd-ddwyrain.

Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Sinclair Drive am 110 metr i'r gogledd-ddwyrain.

Ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 76 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Attfield Close am 28 metr i'r gorllewin.

Ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 14 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Rhodfa Colchester am 101 metr i'r gogledd-ddwyrain.

Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Foster Drive am 74 metr i'r gogledd-ddwyrain.

Sinclair Drive

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Hammond Way am 7 metr i'r de-ddwyrain ac ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Hammond Way am 9 metr i'r de-ddwyrain.

Atodlen 3

Hammond Way

Ar ochr y gogledd, o bwynt 41 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Woosnam Close am 10 metr i'r dwyrain.

Dyddiad *****
Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

Cymraeg Saesneg




CARDIFF CAERDYDD

**THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF (PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS OF STOPPING, WAITING, LOADING AND STREET PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2023**

**NOTE: SEE MAP SCHEDULE LEGEND FOR RESTRICTIONS DISPLAYED**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cardiff County Licence No: AC0000816513 2024

Z30
AA29 AA31
AB30

N W E S

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1250 @ A3 |
| DATE | |
| MAP | Tile Ref: AA30 |
| REVISION | DRAFT |




**THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF (PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS OF STOPPING, WAITING, LOADING AND STREET PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2023**


**NOTE: SEE MAP SCHEDULE LEGEND FOR RESTRICTIONS DISPLAYED**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cardiff County Licence No: AC0000816513 2024

AA30
AB29 AB31
AC30

N W E S

| | |
|---|---|
| **SCALE** | 1 : 1250 **@ A3** |
| **DATE** | |
| **MAP** | Tile Ref: AB30 |
| **REVISION** | DRAFT |




# CYNGOR DINAS CAERDYDD  THE CITY OF CARDIFF COUNCIL

COPYRIGHT OF CARDIFF COUNCIL. ALL RIGHTS RESERVED.

DRAWING CAN BE SCALED FOR PLANNING APPLICATION PURPOSES ONLY.

© Crown copyright and database rights (2011) Ordnance Survey 100023376.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2011) Arolwg Ordnans 100023376.

DESIGN CONTRACTS AND DELIVERY
*DYLUNIO CONTRACTAU A DARPARU*

**Andrew Gregory**
DIRECTOR FOR PLANNING, TRANSPORT AND ENVIRONMENT
*CYFARWYDDWR CYNLLUNIO, TRAFNIDIATH A'R AMGYLCHEDD*

CARDIFF CAERDYDD

| Rev | By | Date | | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|---|

**Project:** Hammond Way, Cardiff - Traffic Regulation Order Proposal

**Title:** Proposed Restrictions

**Checked:** AS
**Drawn:** WW
**Scale:** 1:2000
**Date:** Mar 24

**Path:**
**Project Number:**
**Drawing Number:**

do not scale drawing except for planning application purposes

County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff CF10 4UW
Telephone 029 2287 2456